**Canllaw Cefnogi i Dystion**

Rôl Swyddog Ymchwilio yw casglu gwybodaeth ffeithiol am honiadau fel rhan o ymchwiliad o dan Bolisi a Gweithdrefn Disgyblu, Achwyniadau a Datgelu Camarfer Cyngor Sir Caerfyrddin. Os gofynnir i chi fynd i gyfweliad ymchwilio fel tyst, y rheswm dros hyn fydd oherwydd eich bod wedi cael eich nodi gan y swyddog ymchwilio sy'n cynnal ymholiadau cychwynnol a/neu fel rhan o ymchwiliad ffurfiol gan ei bod yn bosibl y gallwch gynorthwyo i ddarparu gwybodaeth ategol i lywio'r ymchwiliad.

Nod y canllaw canlynol yw amlinellu'r hyn y gallwch ei ddisgwyl fel tyst. Os oes gennych unrhyw ymholiadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y canllaw, dylech gysylltu â'ch Ymgynghorydd Adnoddau Dynol.

Mae'n bosibl y gall fod yn dyst achosi pryder i rai pobl ac mae'n bwysig cofio y gofynnir i chi fynd i'r cyfweliad fel tyst posibl yn unig ac nid oes unrhyw honiadau wedi'u gwneud yn eich erbyn.

Mae'r holl ymchwiliadau'n gyfrinachol ac ni ddylech eu trafod â'ch cydweithwyr. Gallai unrhyw achos o dorri cyfrinachedd beryglu'r ymchwiliad, a bydd yn cael ei drin fel mater difrifol iawn. Os ceir bod amodau cyfrinachedd wedi'u torri, gallai hynny arwain at gymryd camau disgybl yn erbyn y person dan sylw.

Bydd manylion y lleoliad ynghyd â'r dyddiad, yr amser, a'r bobl fydd yn bresennol yn y cyfarfod ymchwilio wedi'u cynnwys yn eich llythyr gwahodd.

Ar ddechrau'r cyfarfod, byddwch yn cael gwybod y bydd cofnod o'r drafodaeth ymchwilio yn cael ei wneud a'i gadw gan y Swyddog Ymchwilio, ac er bydd hwnnw'n gofnod cywir, ni fydd yn gofnod air am air. Byddwch hefyd yn cael gwybod ei bod yn bosibl y gellir galw arnoch i fod yn bresennol os bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn berthnasol i'r ymchwiliad a'i bod yn debygol o gael ei chyflwyno mewn gwrandawiad disgyblu, o bosibl gwrandawiad apêl disgyblu neu, mewn achosion prin, Tribiwnlys Cyflogaeth.

Dylech fod yn ymwybodol y gall unrhyw barti ofyn i ohirio'r cyfarfod ar unrhyw adeg.

**<u>Cyngor ynghylch gofyn cwestiynau</u>**

Er mwyn cynorthwyo i sicrhau bod ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal, dylech wneud y canlynol;

Gwrando'n astud ar y cwestiynau sy'n cael eu gofyn.

Os nad ydych yn clywed y cwestiynau'n iawn, neu os nad ydych yn deall rhan o'r cwestiwn, dylech ofyn am eglurhad.  Nid oes angen dyfalu beth yw'r cwestiwn.

Dylech bob amser gymryd ychydig eiliadau i feddwl ac yna siarad yn glir.

Rhoi ateb mor llawn â phosibl i'r cwestiynau.

Os na allwch gofio rhywbeth, dywedwch hynny. Peidiwch â dyfalu.  Dylech fod yn uniongyrchol wrth ateb, a pheidiwch â bod yn amwys.  Os ydych yn cytuno, dywedwch hynny.  Yn yr un modd, os ydych yn anghytuno, dywedwch hynny.

**Tystion sy'n mynd i wrandawiad disgyblu ffurfiol**

Mae'n bosibl y gofynnir i chi roi tystiolaeth mewn gwrandawiad disgyblu, o bosibl gwrandawiad apêl disgyblu ac, mewn achosion prin, Tribiwnlys Cyflogaeth, os ydych wedi cymryd rhan mewn cyfweliad ymchwilio a bod eich datganiad wedi'i gynnwys fel rhan o weithdrefn ffurfiol.

Bydd manylion y lleoliad ynghyd â'r dyddiad, yr amser a phwy y bydd angen i chi adrodd iddo wedi'u cynnwys yn eich llythyr gwahodd.

Byddwch yn cael eich arwain at ystafell aros sydd ar wahân i'r ystafell lle cynhelir y gwrandawiad. Byddwch yn cael gwybod am y cyfleusterau sydd ar gael megis toiledau, diodydd ac ati.

Efallai y bydd o fudd i chi ddod â rhywbeth tawel i'w wneud i'ch helpu i ladd amser.

Dylech fod yn ymwybodol y byddwch, ar ryw adeg yn ystod y dydd, yn cyfarfod â'r aelod staff y mae honiadau wedi'u gwneud yn ei erbyn. Byddwch yn ei weld yn y gwrandawiad, ond mae'n bosibl y byddwch hefyd yn cyfarfod yn anffurfiol cyn y gwrandawiad, er enghraifft yn y maes parcio, yn y dderbynfa ac ati. Er ein bod yn gwneud ein gorau i reoli digwyddiadau'r gwrandawiad ac mae hyn yn cynnwys amserau cyrraedd, ystafelloedd aros ac ati, nid oes gennym reolaeth lawn dros yr hyn a wneir gan bob parti.

**Y Broses**

Byddwch yn cael eich galw fel tyst i'r gwrandawiad pan fydd angen eich datganiad/tystiolaeth. Nid yw'n bosibl rhoi amser o ran pryd y byddwch yn cael eich galw ond byddwch yn cael gwybod am unrhyw oedi sylweddol cyn belled ag sy'n bosibl.

Yn yr ystafell, bydd:

- Cadeirydd y panel sy'n cael ei gynghori gan Ymgynghorydd Adnoddau Dynol.
- Unigolyn sy'n cymryd nodiadau.
- Rheolwr Comisiynu'r ymchwiliad a fydd yn cyflwyno'r achos.
- Yr ymatebwr (y gweithiwr sy'n destun y gwrandawiad), yng nghwmni cynrychiolydd o'r Undeb Llafur neu gydweithiwr fel arfer.
- Efallai y bydd y swyddog ymchwilio hefyd yn bresennol er mwyn ymateb i unhryw gwestiynau gan unrhyw barti mewn perthynas â'r ymchwiliad.

Gofynnir i chi eistedd a bydd y Cadeirydd yn eich cyflwyno i bawb yn yr ystafell. Fel arfer bydd eich datganiad wedi'i ddarllen yn barod felly mae'n annhebygol y gofynnir i chi ddarllen eich datganiad, ond bydd yn rhaid i chi fod yn barod i wneud hynny os gofynnir i chi.

Bydd gennych eisoes gopi o'r datganiad a roddwyd gennych yn eich cyfweliad yn ystod yr ymchwiliad. Fodd bynnag, bydd copi arall ar gael i chi cyn y gwrandawiad a/neu ar y diwrnod er mwyn i chi gyfeirio ato. Bydd copi o'ch datganiad hefyd wedi'i roi i bawb fydd yn bresennol cyn y gwrandawiad. Mae'n iawn os ydych am ddod â chopi o'ch datganiad i'r gwrandawiad er mwyn procio'ch cof cyn i chi fynd i roi

tystiolaeth, gan ei bod yn bosibl bod ychydig o amser wedi mynd heibio ers eich cyfweliad fel rhan o'r ymchwiliad.

Mae'n bosibl y bydd pwy bynnag sydd wedi gofyn i chi fod yn dyst yn gofyn cwestiynau i chi.

Yn ogystal, gall y parti arall a'r panel ofyn cwestiynau i chi os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Os credwch fod rhywbeth wedi'i ddweud yn y datganiad a wnaed gennych, dywedwch hynny a bydd rhywun yn eich cynorthwyo i ddod o hyd iddo.  NID prawf o'ch cof yw hwn.

Cofiwch bob amser eich bod yn cynrychioli'r Awdurdod/Ysgol a bydd angen i'ch ymddygiad adlewyrchu hyn. Bydd angen i chi fod yn gwrtais bob amser ac ni ddylech golli'ch tymer ar unrhyw adeg.  Bydd Cadeirydd y panel yn rhoi sylw i unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad unrhyw barti yn ystod y gwrandawiad, ond os bydd unrhyw achos o ymddygiad, gall argymell i'r weithdrefn ddisgyblu gael ei gweithredu.

Fe'ch anogir i wneud eich pwynt yn glir. Os ydych yn ei chael hi'n anodd gwneud hyn, esboniwch hyn i'r panel. Mae bob amser yn syniad da i wylio aelodau'r panel a thalu sylw arbennig i'r hyn y maent yn ei ddweud.  Mae'n bosibl y gofynnir i chi aros tra bod rhywbeth yn cael ei ysgrifennu.

Byddwch yn cael gwybod ymlaen llaw bod angen i chi fynd i wrandawiad ffurfiol. Pan fyddwch yn cael yr hysbysiad hwn, os bydd unrhyw ffactorau eraill y credwch y gallent ddylanwadu ar drefniadau eich presenoldeb, dylech gysylltu â'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol a enwir cyn gynted â bod hynny'n gyfleus er mwyn trafod hyn. Os bydd cyfarfod ymchwilio a/neu gyfarfod disgyblu/apêl yn cael ei recordio, byddwch yn cael gwybod ymlaen llaw.

## Amseru

Mae'r gwrandawiad yn cael ei drefnu cymaint ymlaen llaw ag sy'n bosibl.  Fel arfer bydd gwrandawiad yn cymryd y rhan fwyaf o'r bore neu'r prynhawn, ond nid yw'n bosibl dweud yn union am faint y bydd yn para.

Gan ddibynnu ar yr hyn sy'n digwydd ar y diwrnod, mae hyd yn oed yn bosibl na fydd y gwrandawiad yn mynd yn ei flaen, neu'n cael ei ohirio tan ddiwrnod arall.  Byddwch yn cael gwybod am y trefniadau cyn belled ag sy'n ymarferol bosibl.